

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, I.R. Buckley, C.M. Cowpe, R.E. Godfrey, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, C. Stallard a N.C. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

18 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

19 PENODI IS-GADEIRYDD –

ARGYMHELLWYD – Y Cynghorydd N.C. Thomas yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

20 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr C.A. Cave ac A.M. Collins.

21 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

22 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd S. Lloyd-Selby ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 5 ar yr Agenda – Diweddariad ar Werthuso Perfformiad o Wasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg ac Eitem 6 ar yr Agenda – Tracio Argymhellion Craffu o'r 4ydd Chwarter 2023/24 ac Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynol Flynyddol Arfaethedig 2024/25.

Personol oedd natur ei diddordeb gan ei bod wedi'i phenodi'n aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a enwebwyd gan Gyngor Bro Morgannwg.

23 ARFARNU PERFFORMIAD DIWEDDARIAD O WASANAETHAU CYMDEITHASOL BRO MORGANNWG (CGC) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i gyflawni'r meysydd gwella a nodwyd a benderfynwyd fel rhan o'r gwerthusiad o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod arolygiad mis Ionawr 2023 wedi'i fframio o amgylch egwyddorion canlynol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014): Pobl – llais a rheolaeth, Atal, Lles a Phartneriaethau, a bod canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi'u gwahanu gan Wasanaethau 'Oedolion' a 'Plant a Phobl Ifanc'. Fodd bynnag, roedd amcanion mewn perthynas â 'Rheoli Adnoddau a Diogelu' hefyd i'w gweld yn y canfyddiadau.

Roedd y cyd-destun presennol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn heriol iawn a chydabu AGC y ffaith hon drwy ei harolygiad. Roedd yn cydnabod yr adferiad o'r pandemig a'r argyfwng costau byw fel y cyd-destun yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo a'r galw uchel o ganlyniad a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr, er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar y 'meysydd i'w gwella', y nododd yr adroddiad ar yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad lawer o 'gryfderau' nad oeddent yn rhan o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Roedd crynodeb a chanfyddiadau cyffredinol AGC yn adlewyrchiad cadarnhaol o waith staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, eu rheolwyr a'u cydweithwyr corfforaethol.

I gloi, tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y ffaith bod y 'meysydd i'w gwella' a nodwyd wedi'u trosglwyddo i gynllun gweithredu Bwrdd Ail-lunio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y wybodaeth ddiweddaraf amdanynt wedi'i chael bob chwarter. Roedd darn o'r cynllun gweithredu i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn dangos cynnydd a wnaed fesul chwarter ac a gafodd ei ddiweddarau ddiwethaf ddiwedd mis Mawrth 2024. Ar y cyfan, roedd 6 cham gweithredu 'wedi'u cwblhau', roedd 14 'wedi'u cwblhau gyda monitro parhaus' ac roedd 4 yn dal i fod 'ar y gweill'. Roedd y camau gweithredu a oedd 'ar y gweill' i gyd yn nodi, er nad oeddent wedi'u cwblhau eto, bod cynnydd yn dal i gael ei wneud. Byddai'r camau gweithredu hyn yn parhau'n rhan o gynllun gweithredu Bwrdd Ail-lunio'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 24/25 a byddai'r cynnydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r mecanwaith hwnnw.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, tynnodd y Cynghorydd Cowpe sylw'r Pwyllgor at gyfres o bryderon yr oedd wedi'u mynegi o'r blaen drwy e-bost gyda'r Cyfarwyddwr cyn y cyfarfod. Gellir crynhoi'r pryderon fel a ganlyn:

- Atodiad 1 yr Adroddiad, 1.3, Tystiolaeth o Angen AGC – Anghydfodau Ariannu -

Roedd y cyfarfod cynnydd gyda Llywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn ystod Chwarter 3 (mis Hydref - mis Rhagfyr 2023) wedi'i ganslo ac nid oedd wedi'i aildrefnu eto er gwaethaf cryn dipyn o amser.

- Atodiad 1, 8.1, Tystiolaeth o Angen AGC – Galw am Wasanaethau Atal – Ar gyfer Chwarter 3, roedd rhestr aros Gwasanaeth Rhianta'r Fro (GRhF) yn 4 wythnos o hyd, fodd bynnag, ar gyfer Chwarter 4 (mis Ionawr – mis Mawrth 2024) roedd y rhestr aros wedi cynyddu i 10 – 12 wythnos o hyd ac nid oedd yn glir o'r adroddiad pam fod y niferoedd ar y rhestr aros wedi cynyddu.

I roi cyd-destun pellach, dyfynnodd y Cynghorydd Cowpe ymateb yr oedd wedi'i dderbyn gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'i e-bost cynharach a anfonwyd at y Cyfarwyddwr ar bwnc cynnydd yn y rhestr aros ar gyfer GRhF a sut roedd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r rhestr aros. Y dyfyniad oedd "symud i ffwrdd o ddarparu grwpiau oherwydd nad oedd rhieni/roedd nifer cyfyngedig o rieni'n derbyn hyn. Bydd symud i ffocws ar gymorth un i un yn lleihau'r amser a gymerir i drefnu sesiynau grŵp ac yn golygu y bydd mwy o rieni'n cael eu cefnogi." Mynegodd y Cynghorydd Cowpe ei bryder mewn perthynas â'r pwyslais a roddir ar gynnig sesiynau rhianta grŵp ar sail un i un, oherwydd, er y byddai rhai rhieni'n debygol o fod eisiau sesiwn un i un, na fyddai digon o adnoddau o fewn y gwasanaeth i ddarparu ar gyfer hyn a hefyd y byddai teuluoedd a fynychodd sesiynau grŵp yn aml yn gwneud cysylltiadau eraill i adeiladu ar eu rhwydwaith cymorth. Felly, roedd y Cynghorydd Cowpe yn pryderu am y ffordd y cafodd yr ymateb ei ysgrifennu gan ei bod yn ymddangos mai unig ddull y Cyngor oedd rhoi cymorth ar sail un i un.

Tynnodd y Cynghorydd Cowpe sylw hefyd at ail ymateb gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a gyfeiriodd at ddatblygu porthol rhianta ar-lein, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i rannu'r adnoddau "Magu Plant. Rhoi Amser Iddo," a rhannodd ei bryder mewn perthynas ag unigolion nad oedd ganddynt fynediad digidol ac felly na fyddent yn gallu cael mynediad at yr adnodd.

Yn olaf, cododd y Cynghorydd Cowpe drydydd dyfyniad o'r ymateb a dderbyniwyd drwy e-bost gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r recriwtio diweddar i ddwy swydd a fydd yn lleihau rhestr aros GRhF o 60 i 30 a bod y dyddiadau dechrau'n dal i fod yn yr arfaeth, fodd bynnag, yn fwyaf tebygol o fod tua mis Mehefin/Gorffennaf 2024. Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cynghorydd Cowpe a oedd oedi yn y broses recriwtio.

Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cyfarfodydd ynghylch anghydfodau ariannu â Llywodraeth Cymru wedi cael eu canslo oherwydd salwch un o Swyddogion Llywodraeth Cymru ac nid un o Swyddogion Bro Morgannwg. Ers hynny roedd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Bro Morgannwg wedi aildrefnu'r cyfarfod.

Yna aeth Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i'r afael â phryderon y Cynghorydd Cowpe mewn perthynas â rhestrau aros GRhF a dechreuodd drwy ddweud na fu unrhyw newid yn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth, felly, roedd y cynnydd yn ymwneud â chynnydd yn y galw am y gwasanaeth.

O ran pryderon y Cynghorydd Cowpe ynghylch recriwtio, ni fu oedi cyn hysbysebu'r swyddi uchod na chyfweld ar eu cyfer, fodd bynnag, roedd angen i Gyngor Bro Morgannwg wneud yr holl wiriadau a geir daon angenrheidiol ar gyfer yr unigolion y cynigiwyd y swyddi iddynt a oedd yn arfer cyflogaeth safonol a byddai angen i unigolion hefyd weithio cyfnodau rhybudd gyda'u cyflogwyr presennol.

Roedd symud tuag at ddatblygu porthol rhianta plant ar-lein yn fenter genedlaethol gyda'r nod o gynyddu mynediad at adnoddau rhianta. Dangosodd data demograffig gynydd yn nifer y teuluoedd sy'n dymuno cael mynediad at adnoddau'n ddigidol gan ddefnyddio dyfeisiau personol fel gliniaduron a ffonau symudol. Fodd bynnag, byddai adnoddau hefyd ar gael ar ffurf copi caled ar gais.

I roi cyd-destun pellach ar y cyngor blaenorol a roddwyd i'r Cynghorydd Cowpe, ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fod y patrymau a'r tueddiadau a welwyd o'r blaen gan y gwasanaeth yn dangos bod teuluoedd yn dymuno symud i ffwrdd o waith grŵp a ddangoswyd gan y ffaith nad oedd teuluoedd yn dod i'r sesiynau ac felly nad oedd lleoedd a lleoliadau cysylltiedig yn cael eu defnyddio. Felly, roedd y Cyngor yn dymuno symud at fodel a oedd yn fwy dymunol i'r defnyddwyr gwasanaeth. Roedd rhai awdurdodau lleol eraill hefyd wedi symud i adnoddau digidol yn unig, fodd bynnag, nid dyna fwriad Cyngor Bro Morgannwg. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth hefyd fod dau grŵp rhianta ar waith ar hyn o bryd o fewn Bro Morgannwg a oedd wedi'u halinio ag ysgolion Bro Morgannwg. Roedd yn bwysig i Gyngor Bro Morgannwg wneud y mwyaf o'i adnoddau ac nid oedd symud i gynnig mwy un i un wedi bod yn benderfyniad cyflym ac roedd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cadw model brand priodol.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Cowpe nad oedd yn dymuno colli gwaith grŵp a nododd ei fod yn aml yn cymryd amser i grŵp sefydlu ei hun trwy hyrwyddo ac ar lafar. Felly, gofynnodd y Cynghorydd i'r swyddogion edrych ar y papurau a roddwyd er mwyn sicrhau bod pwyslais yn cael ei roi yn y lle cywir o fewn y ddogfen i sicrhau bod y ddogfen yn cael ei darllen fel yr oedd y swyddogion yn bwriadu.

Fel cwestiwn atodol, cyfeiriodd y Cynghorydd Cowpe at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi lleihau arian ar gyfer GRhF ac felly gofynnodd beth roedd Cyngor Bro Morgannwg yn ei wneud i liniaru hyn gan fod cynnydd amlwg mewn angen. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fod y Cyngor wedi bod yn derbyn grant rhianta ychwanegol ers y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf ac yn y flwyddyn ariannol bresennol, ei fod wedi gweld gostyngiad yn yr arian grant. Fodd bynnag, roedd yn berthnasol nodi bod ffrydiau arian grant eraill wedi'u diogelu. Diolchodd y Cynghorydd Cowpe i'r swyddogion am y cyngor a dywedodd y dylid rhoi gwybodaeth ariannol yn yr adroddiad hefyd.

Mewn ymateb, nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor o natur ariannol ac felly byddai'r wybodaeth ariannol berthnasol yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor fel rhan o'i adroddiadau ariannol rheolaidd. Yna nododd Cadeirydd y Pwyllgor hefyd y gellid trafod materion ariannol yng nghyfarfod Gweithgor Cyllideb y Pwyllgor.

Yna dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby fod y ffordd yr oedd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno, dros bob chwarter, yn ddefnyddiol i ddangos cynnydd a oedd yn cael ei

wneud ac yna mynegodd bryder ynghylch yr adborth a gafwyd mewn perthynas â Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a chyswllt â gweithwyr cymdeithasol. Rhoddwyd cyngor bod camau'n cael eu cymryd i wella erbyn hyn, fodd bynnag, cwestiynodd y Cyngorydd a oedd unrhyw arwyddion cadarnhaol bod y camau'n gweithio a hefyd sut roedd cynnydd yn cael ei fonitro.

Mewn ymateb, rhannodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y pryder mewn perthynas â'r adborth a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth o ran cysylltu â'r gwasanaeth a chynigiodd sicrwydd bod safon glir o fewn tîm pob gwasanaeth o ran disgwyliadau wrth ddelio ag ymholiadau, hysbysebu dulliau cyswllt yn ogystal â chyfleuster 'ar ddyletswydd' fel y gellid cysylltu â gweithwyr cymdeithasol bob amser. Nid oedd defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu hailholi ar y profiad o gysylltu â'r gwasanaeth ond nid oedd unrhyw arwydd nad oedd y mater wedi cael sylw. Cydnabu'r swyddogion nad oedd lefelau cyfathrebu bob amser yn berffaith. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi sicrhau bod disgwyliadau'n glir ar y dulliau a'r wybodaeth a oedd ar gael ar gyfer cyfathrebu â'r gwasanaeth gan gofio na fyddai'r swyddogion bob amser ar gael ar unwaith, ond y byddent yn sicrhau bod galwadau'n cael eu dychwelyd pan fo modd yn unol â safonau ysgrifenedig a oedd bellach ar gael ar draws yr adran.

Fel pwynt atodol, cyfeiriodd y Cyngorydd Lloyd-Selby at gynllun peilot y tîm lleoliadau a phlant sy'n derbyn gofal yn gweithredu llinell uniongyrchol i'w swyddog ar ddyletswydd yn y chwarter cyntaf sef mis Ebrill i fis Fehefin 2023 a gofynnodd am ganlyniadau'r cynllun peilot. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fod y canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol ac wedi arwain at ymgorffori'r trefniadau uchod yn nhîm pob gwasanaeth gan sicrhau bod swyddog bob amser ar gael i gysylltu ag ef. Felly, roedd gan swyddogion gwasanaeth ddisgwyliad clir ar y prosesau dilynol yn ogystal â'r trefniadau 'ar ddyletswydd' i ychwanegu gwydnwch pellach.

Cododd y Cyngorydd Lloyd-Selby hefyd nifer o ymholiadau i Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion, fodd bynnag, oherwydd anawsterau technegol, nid oedd y swyddog yn gallu ymateb. Felly, cytunwyd y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion ymateb i'r pwyntiau canlynol yn ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod:

- Ailgomisiynu'r Porth Eiriolaeth yn 2024 - Roedd yn ddyddiau cynnar ond a oedd y swyddogion yn hyderus ac a oedd tystiolaeth bod y cynnydd yn y galw yn cael ei fodloni?
- Atodiad 1 yr Adroddiad, 1.2, Asesiad o Angen Gofalwr – faint a oedd yn manteisio ar asesiadau Gofalwr y gellid ei ddefnyddio fel arwydd o ba mor rhagweithiol yr oedd y swyddogion o ran cynnig yr asesiad?
- Atodiad 1 yr Adroddiad, 1.3, Anghydfodau ariannu - mewn perthynas ag anghenion cymwys person yn cael eu bodloni oherwydd anghydfod rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol sy'n arwain at ofalwr yn gorfod dod o hyd i becyn gofal sylweddol yn y cyfamser, a oedd unrhyw enghreifftiau eraill o hyn yn digwydd?

Yna cododd y Cadeirydd argymhelliad y dylid dod â'r adroddiad cynnydd yn ôl i'r Pwyllgor ymhen 12 mis ac, yn dilyn ymholiad gan y Cyfarwyddwr mewn perthynas ag a fyddai'r adroddiad yn y dyfodol yn cynnwys camau gweithredu a oedd wedi'u

cwblhau, dywedodd yr Is-gadeirydd fod rhai o'r meysydd gwella a nodwyd fel rhai wedi'u cwblhau wedi'u nodi fel rhai 'wedi'u cwblhau gyda monitro parhaus' ac felly, dylid dod â'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i gyflawni'r meysydd gwella a nodwyd fel rhai 'wedi'u cwblhau gyda monitro parhaus' ac 'ar y gweill' o fewn y cynllun gweithredu cysylltiedig yn ôl i'r Pwyllgor.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r cynnydd yn erbyn y meysydd gwella a nodwyd a ddatblygwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), fel y nodir yn yr adroddiad diweddar.

(2) Bod diweddariad pellach ar ymateb y Cyngor i argymhellion AGC yn yr Adroddiad Gwerthuso Perfformiad yn cael ei roi i'r Pwyllgor ymhen 12 mis.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad diweddar, yn unol â chais y Pwyllgor ym mis Mai 2023, ynghylch y cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i gyflawni'r meysydd gwella a nodwyd a bennwyd fel rhan o werthusiad perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023 .

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i gyflawni'r meysydd gwella a nodwyd sydd 'wedi'u cwblhau â monitro parhaus' ac 'ar y gweill' yn y cynllun gweithredu cysylltiedig.

24 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 4YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2024/25 (CAC) –

Ar ran y Cadeirydd, cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd mewn perthynas ag argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu ac amserlen arfaethedig y Flaenraglen Waith ar gyfer 2024/25.

Dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd fod yr holl gamau gweithredu dan Atodiadau A a B wedi'u nodi â statws 'wedi'i gwblhau' ac nad oedd unrhyw adroddiadau wedi'u llithro o flwyddyn 2023-24 y Cyngor ar Raglen Waith y Pwyllgor. Felly, roedd y Pwyllgor mewn sefyllfa dda i symud ymlaen i flwyddyn 2024-25 y Cyngor.

Ers cyhoeddi'r adroddiad gerbron y Pwyllgor, dywedodd y Swyddog fod rhai mân newidiadau i Flaenraglen Waith y Pwyllgor wedi'u hawgrymu fel a ganlyn:

- Bod yr Adroddiadau Diogelu Corfforaethol Blynyddol a Chanol Blwyddyn yn cael eu llithro gan un cylch cyfarfod i ddarparu ar gyfer y cyfeiriadau cysylltiedig a oedd yn cael eu hystyried gan y Cabinet ychydig yn hwyrach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, a

- Bod adroddiad “Cynllun Ardal ar y Cyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro”, fel y'i nodwyd ym mis Mehefin ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor, yn cael ei gyfuno ag adroddiad "Diweddarau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg" i'w dderbyn ym mis Ionawr 2025, gan nad oedd y swyddogion yn credu bod dau adroddiad ar wahân yn angenrheidiol mwyach.

Yna tynnodd y Swyddog sylw at argymhellion ychwanegol a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â sefydlu aelodaeth y Gweithgor Canolfannau Hamdden a Gweithgor y Gyllideb a oedd yn gysylltiedig â'r Pwyllgor. Roedd yr argymhellion yn amserol o ystyried bod Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn 2024-25 y Cyngor wedi cael ei sefydlu ers hynny yng Nghyfarfod Blynyddol diweddar y Cyngor.

Felly, gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno ar statws y camau gweithredu yn Atodiadau A a B yr adroddiad, cymeradwyo Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor i'w lanlwytho i'r wefan gyhoeddus fel y'i cynhwyswyd yn Atodiad D yr adroddiad yn amodol ar fân newidiadau fel y nodwyd a chytuno ar aelodaeth y ddau Weithgor ar gyfer blwyddyn 2024-25 y Cyngor.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, nododd y Cynghorwyr Godfrey a Cowpe eu bod yn dymuno cael eu cynnwys yn y trefniadau ar gyfer y Gweithgor Canolfannau Hamdden yn y dyfodol a chytunwyd wedi hynny fod y Cynghorydd Godfrey yn llenwi'r sedd wag ar Weithgor y Gyllideb gan gymryd lle'r Cynghorydd Fisher.

Nodwyd bod holl Aelodau eraill y Gweithgor Canolfannau Hamdden a Gweithgor y Gyllideb yn Aelodau ailetholedig ar y Pwyllgor a nododd yr Aelodau eu bod yn dymuno aros ar y Grwpiau perthnasol.

I gloi, nododd y Cadeirydd fod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor wedi'i alw ar ddydd Gwener 24 Mai 2024 mewn perthynas ag eitem Galw i Mewn a dderbyniwyd ac y byddai'r papurau perthnasol ar gael i'r Pwyllgor yn fuan.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.
- (2) Y dylid nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 (Atodiad C), yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol 2024/25.
- (3) Bod Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, sydd ynghlwm yn Atodiad D, yn cael ei chymeradwyo a'i lanlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar wneud y diwygiadau a ganlyn cyn ei chyhoeddi:
 - Yr Adroddiadau Diogelu Corfforaethol Blynyddol a Chanol Blwyddyn yn cael eu llithro i'r misoedd dilynol yn unol â'r tystlythyrau cysylltiedig gan y Cabinet a dderbyniwyd.

- Cydgyfnerthu “Cynllun Ardal ar y Cyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (5 mlynedd nesaf) (Mehefin) gyda'r adroddiad “Diweddariad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg”, i'w dderbyn ym mis Ionawr 2025.

(4) BOD Y Cynghorwyr C.A. Cave, J.E. Charles, C.M. Cowpe, R.E. Godfrey, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, C. Stallard ac NC Thomas i'w penodi i Weithgor Canolfan Hamdden y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/25.

(5) BOD Y Cynghorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, J.E. Charles, R.E. Godfrey, J.M. Norman, a N.C. Thomas i'w penodi i Weithgor Cyllideb y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/25.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.

(4) I baratoi ar gyfer trefniadau yn y dyfodol mewn perthynas ag Ymweliadau â Chanolfannau Hamdden yn dilyn Aelodaeth Pwyllgor fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 8 Mai, 2024.

(5) Paratoi ar gyfer trefniadau yn y dyfodol mewn perthynas â chyfarfodydd y Grŵp Cyllideb yn dilyn Aelodaeth y Pwyllgor fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 8 Mai, 2024.